Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1259

Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

RHAN 3

Talu grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru

Talu grantiau a gwneud benthyciadau

4.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Cynllun hwn, dalu grantiau neu wneud benthyciadau, mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grant neu wneud benthyciad o dan baragraff (1) i unrhyw berson—

(a) sydd wedi gwneud cais am grant neu fenthyciad, a

(b) y mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo ei gais.